# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Meithrinfa St Aubin y Bont-faen**

**Meithrinfa St Aubin**
**Yr Hen Ganolfan Iechyd, Y Stryd Fawr**
**Yr Hen Neuadd**
**Y Bont-faen**
**CF71 7AH**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Llun, 20 Awst 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Lleolir Meithrinfa St Aubin y Bont-faen mewn adeilad un llawr yn y Bont-faen, Bro Morgannwg. St Aubin Nursery Limited yw'r darparwr cofrestredig ar gyfer y gwasanaeth. Mae Susan Shepherd-Evans wedi ei henwebu fel Unigolyn Cyfrifol ar ran y cwmni cyfyngedig, a Marie Anslow yw'r Person â Gofal ar sail o ddydd i ddydd. Mae rheolwr gofal plant hefyd yn rhoi cymorth i'r feithrinfa a'r Person â Gofal. Mae’r gwasanaeth wedi ei gofrestru i ofalu am hyd at 161 o blant. Mae'r feithrinfa hon yn un o grŵp o ganolfannau gofal plant sy'n cael eu gweithredu gan gwmni cyfyngedig ac mae wedi'i gofrestru ers mis Mai 2011. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnig trwy'r Saesneg ac mae'n cynnwys y Gymraeg diolch i nifer of siaradwyr Cymraeg rhugl sy’n aelodau staff.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd o safon uchel iawn, lle mae amrediad gwych o adnoddau sydd wedi cael eu hystyried yn dda gan y staff er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y plant ac yn eu hannog i ddatblygu eu chwarae a'u dysgu eu hunain. Mae gan y plant lais cryf yn y gwasanaeth ac maent yn derbyn gofal gan dîm staff sy'n parchu'r plant, eu safbwyntiau a'u dewisiadau. Mae'r plant yn elwa o staff medrus a phrofiadol sydd yn ymrwymedig i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i brofiadau'r plant. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn a rhagweithiol o'r gwasanaeth yn cefnogi hyn ac mae'n sicrhau gwasanaeth dibynadwy ac o safon uchel iawn ar gyfer y plant a'r rhieni.

**2. Gwelliannau**

Mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi mewn system electronig ddiogel yn ddiweddar er mwyn diweddaru'r rhieni yn ystod y dydd ynghylch diwrnod eu plant. Mae'r ardd wedi bod yn ganolbwynt ar gyfer datblygiad. Mae'r gerddi helaeth wedi cael eu rhannu er mwyn creu lleoedd chwarae dynodedig ar gyfer pob grŵp oedran o blant, i'w galluogi i ddefnyddio'r gerddi yn rhydd pan ddymunant ac i deilwra'r lleoedd ar gyfer pob grŵp oedran. Mae'r gwasanaeth wedi dangos ei fod yn ymroddedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus y grŵp staff ac mae hyn wedi parhau i fod yn flaenoriaeth ers yr arolygiad diwethaf.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Canfuom fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau, ac rydym wedi gwneud un argymhelliad yn unig, sy'n ymwneud â'r amgylchedd.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn elwa o amgylchedd chwarae, hamdden a gofal gwych lle maent wedi ffurfio perthnasau diogel â'r staff a gwneud ffrindiau mewn modd cadarnhaol â phlant eraill, ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at eu llesiant. Mae'r holl blant yn y gwasanaeth hwn yn gallu ymgysylltu mewn gweithgareddau o'u dewis ac maent yn rhydd i ddatblygu'r chwarae hwnnw mewn cydweithrediad â'u cyfoedion. Gwrandewir yn dda arnynt ac mae eu safbwyntiau yn cael eu hystyried.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau ac mae ganddynt gyfleoedd i siarad a mynegi eu hunain. Mae'r holl blant yn gallu symud yn rhydd rhwng y gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Yn yr uned ar gyfer babanod a'r uned ar gyfer plant bach, mae'r ystafelloedd sydd ar gael i'r plant wedi'u hagor allan i'w galluogi i symud yn rhydd rhyngddynt ac i ddilyn eu diddordebau eu hunain drwy'r dydd. Mae'r uned cyn-ysgol fawr, cynllun agored hefyd yn caniatáu ar gyfer hyn yn dda iawn. Mae'r gweithgareddau sydd ar gael i'r plant yn y feithrinfa yn cael eu cynllunio gan y staff ac maent yn seiliedig ar ddiddordebau'r plant a sut wnaethant fwynhau gweithgaredd. Gwelsom fod taflenni "dilynol" wedi'u gweithredu ac mae'r staff yn eu defnyddio i nodi hoffterau a chasbethau'r plant ac i werthuso'r gweithgareddau sydd ar gael fel y gellir eu defnyddio i hysbysu'r gweithgareddau a ddarperir i'r plant ar y diwrnod neu'r wythnos ganlynol. Mae gweithgareddau hefyd yn cael eu darparu mewn ymateb i'r hyn y mae plant yn gofyn amdano ar y diwrnod. Gwnaethom arsylwi ar y plant bach yn chwarae yn yr awyr agored a dywedodd staff wrthym fod yr holl weithgareddau yr oeddent wedi'u paratoi yng ngardd y plant bach ar y diwrnod hwnnw yn rhai yr oedd y plant wedi gofyn amdanynt y bore hwnnw yn ystod amser cylch. Roedd y rhain yn cynnwys dinosoriaid, ewyn gwirion a thynnu llun, yn ogystal â dewis o lyfrau ar flanced o dan gysgod coeden y gwnaethom weld y plant a'r staff yn ei rannu gyda'i gilydd. Mae amser byrbryd agored yn cael ei weithredu ar draws y gwasanaeth ac mae hyn yn cynnig dewis i'r plant o ran os neu pryd y maent eisiau cael saib yn eu chwarae er mwyn cael byrbryd, yn hytrach na bod y staff yn atal y chwarae ar amser penodedig, a allai difetha cyfleoedd chwarae hyfryd. Mae'r staff yn sicrhau eu bod yn rhoi amser i'r plant i fynegi eu hunain a gwelsom blant yn sgwrsio'n hapus gyda'r staff drwy gydol ein hymweliad.

Mae gan y plant lais cryf yn y gwasanaeth ac mae hyn yn eu galluogi i gael dylanwad da dros eu profiadau ac i lywio eu chwarae eu hunain.

## 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn ddiogel, cyfforddus, hapus ac ymlaciedig yng ngofal y staff y maent wedi datblygu perthnasau cynnes â hwy. Roedd hyn yn galluogi'r plant i archwilio'u hamgylchedd ac i ymgysylltu â gweithgareddau fel yr oeddent yn dymuno, a gwelsom blant yn ymgysylltu'n hapus ac yn frwdfrydig yn eu chwarae. Roedd y plant wedi datblygu ymlyniadau o anwyldeb amlwg gyda'r staff. Maent yn hapus ac yn hyderus i fynd atynt, maent yn serchog tuag atynt ac maent yn hyderus i geisio cysur pan fo angen. Gwelsom hefyd eu bod yn awyddus i ryngweithio â'r staff a'u cynnwys yn eu chwarae. Yn yr ystafell fabanod, gwelsom blentyn yn chwarae ag offeryn cerddorol. Roedd yn taro'r offeryn ac roedd y staff yn ei ganmol. Roedd yn preblan yn gysurus ac roedd yn gwenu'n braf gyda'r aelod o staff. Mae'r plant yn hapus ac maent yn gwenu a chwerthin wrth chwarae. Mae rhai o'r plant yn dechrau gwneud ffrindiau gyda'u cyfoedion, a gwelsom eu bod yn chwilio am eraill i chwarae gyda hwy, gan ofyn am ei gilydd gan ddefnyddio'u henwau. Gwelsom hefyd rai o'r plant yn trafod eu chwarae ymysg ei gilydd, gan benderfynu ar rolau a cheisio rhannu a chymryd eu tro gyda'r adnoddau. Mae rhai o'r plant yn y gwasanaeth yn rhy ifanc i allu chwarae yn gydweithredol â'u cyfoedion ond roedd y plant hyn yn hyderus i allu dechrau eu chwarae eu hunain ac roeddent hefyd yn fodlon iawn. Mae'r staff yn gwrtais ac yn barchus i'r plant ac mae'r plant yn hapus i ofyn i'r staff am gymorth.

Mae'r plant yn y gwasanaeth hwn wedi ymgartrefu'n dda, maent yn hapus iawn ac yn hyderus. Maent yn ffurfio cyfeillgarwch ag eraill ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

## 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu i gydweithredu, cymryd tro a rhannu, yn ogystal â bod yn sensitif i deimladau eraill. Gwelsom fod y plant yn trafod eu chwarae yn dda a'u bod yn chwarae'n gydweithredol. Er enghraifft, yng ngardd y plant bach roedd dau blentyn eisiau chwarae gyda'r tegan peiriant torri lawnt. Gwelsom eu bod yn setlo'n ôl i chwarae'n gyflym pan wnaeth aelod o'r staff esbonio bod angen iddynt gymryd eu tro a gwnaethant dderbyn y byddai'n rhaid i un ohonynt aros. Aeth un plentyn ymlaen i chwarae gyda chadair wthio fel dewis arall. Mae'r plant yn datblygu eu dealltwriaeth o'r effaith y maent yn ei chael ar eraill ac roedd y rhan fwyaf o'r plant yn ystyrlon o'i gilydd wrth chwarae. Ni welsom unrhyw achosion o ymddygiad digroeso ar wahân i ddigwyddiadau bach sydd i ddisgwyl ar gyfer oedran y plant, a chawsant eu trin yn effeithiol gyda’r staff yn eu hatgoffa’n ysgafn.

Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau fel rhan o grŵp, ac maent yn gweithio ar fod yn hunan disgybledig.

## 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae gan y plant ddiddordeb ac maent yn gyffrous ynghylch y gweithgareddau chwarae y maent yn ymgysylltu â hwy. Gwelsom fod y plant yn egnïol ac yn chwilfrydig yn ystod ein harolygiad. Roeddent yn hapus a hyderus i symud rhwng gweithgareddau'n rhydd, ond roeddent yn cynnal diddordeb mewn gweithgareddau o'u dewis hefyd. Roedd llawer o chwarae'r plant yn yr awyr agored yn ystod ein hymweliad ac roedd yn ddiwrnod arbennig o braf. Gwnaethom arsylwi ar y plant yn ymgysylltu'n frwdfrydig yn y gweithgareddau a wnaed yn hygyrch iddynt, megis chwarae dŵr anniben. Roedd y plant yn mwynhau paentio â dŵr, gan ddefnyddio dŵr, brwshys paent a photeli chwistrellu er mwyn 'paentio'r waliau, y lloriau a'r celfi yn yr ardd. Dewisodd un grŵp bychan o blant wisgo esgidiau glaw a oedd ar gael yn y dosbarth awyr agored a gwnaethant benderfynu bod angen pyllau ar yr esgidiau glaw, felly gyda chymorth y staff gwnaethant lenwi bwcedi â dŵr a gwnaethant greu pyllau yn yr ardd er mwyn stompio ynddynt yn eu hesgidiau glaw, a gwnaethant fwynhau hyn yn fawr iawn. Yn yr uned plant bach, fe ymunodd y plant ag aelod o'r staff mewn helfa bygiau ac roeddent wedi'u cyffroi'n lân pan wnaethant ddarganfod gwlithen o dan eu hambwrdd dŵr.

Mae'r plant yn y gwasanaeth hwn yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu yn fawr iawn. Maent yn gallu cynnal diddordeb yn eu chwarae a chael ymdeimlad o gyflawni ohono.

## 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn datblygu'n dda ar draws amrediad o sgiliau. Mae'r cofnodion o ddatblygiad y mae'r staff yn eu cynnal ynglŷn â phob plentyn yn arddangos bod y plant yn gwneud cynnydd priodol, ac roedd y staff yn siarad yn wybodus am y plant a'r cynnydd yr oeddent wedi ei wneud ers dechrau. Dywedodd y person â gofal wrthym fod system gweithwyr allweddol ar waith a bod y gweithiwr allweddol yn gyfrifol am fonitro a chofnodi datblygiad eu plant allweddol, er bod gan yr holl staff ddealltwriaeth dda o'r plant yn gyffredinol. Yn ogystal â gweithgareddau a gynlluniwyd, gwnaethom nodi fod y plant yn elwa o weithgareddau digymell sy'n cael eu cefnogi'n dda gan y staff. Gwnaethom arsylwi ar aelod o'r staff yn ymgysylltu â phlant bach mewn trafodaeth hyfryd ynglŷn â'r hyn yr oeddent yn gallu gweld yn yr ardd. Gwnaethant sylwi ar awyrennau yn hedfan uwch ben, a bod yna lawer o adar yn canu yn eu coeden. Gwnaethant gyfrif yr adar a sylwi eu bod yn bwyta aeron, a sbardunodd drafodaeth bellach. Mae'r plant yn gallu dilyn eu diddordebau eu hunain a datblygu eu chwarae eu hunain o ganlyniad i'r rhyddid i symud o amgylch sydd ganddynt o fewn y feithrinfa a'r cynllun. Gwelsom blentyn yn archwilio dewis o sbwliau mawr iawn oedd yn yr ardd, a gwnaeth un ohonynt symud. Roedd hwn o ddiddordeb iddi a gwnaeth arbrofi â'u symudiad. Gwnaeth rolio un ar wyneb llyfn, yna i lawr y bryn ac roedd yn hapus i weld fod hyn yn welliant. Roedd hefyd wedi mwynhau pan roliodd dros grât

gan fod hyn wedi creu sŵn a gwnaeth hyn nifer o weithiau. Mae'r plant yn gallu cael mynediad i'r rhan fwyaf o adnoddau yn annibynnol, yn ogystal â'u bagiau a'u cotiau, poteli dŵr a'r ystafelloedd ymolchi, felly mae ganddynt gyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth. Gwelsom fod y plant yn hyderus ac yn fodlon gyda'r annibyniaeth hon.

Mae gan y plant nifer o gyfleoedd o ansawdd da i ddysgu, dilyn diddordebau a datblygu sgiliau, ac fe'u hanogir i ennill annibyniaeth a sgiliau hunangymorth.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r plant a'r rhieni yn elwa ar staff medrus sydd â dealltwriaeth dda o ddatblygiad plant ac sydd eisiau gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r plant yn eu gofal. Mae'r staff yn ymatebol ac maent yn parchu'r plant yn eu gofal a'r penderfyniadau y maent yn eu gwneud. Mae'r plant yn aros yn ddiogel ac yn iach oherwydd bod y staff yn deall eu cyfrifoldebau ac maent yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i'w cynorthwyo yn eu rolau. Mae gan yr holl staff ddealltwriaeth dda o anghenion unigol y plant ac mae hyn yn helpu i sicrhau bod yr anghenion hynny yn cael eu diwallu.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn cael eu gweithredu'n dda i gynorthwyo iechyd, diogelwch a llesiant y plant yn eu gofal. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu siarad yn wybodus am bolisi Amddiffyn Plant y gwasanaeth a'u rolau unigol wrth ei weithredu er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Gwnaethom archwilio cofnodion damweiniau a chanfuom eu bod yn cynnwys y wybodaeth ofynnol, ac roedd gan yr holl staff dystysgrifau cymorth cyntaf pediatrig cyfredol. Mae hylendid da yn cael ei hyrwyddo yn y gwasanaeth ac mae'r Offeryn Archwilio Rheoli Heintiau ar waith i helpu gyda hyn. Roedd yr holl blant yn cael eu hannog i olchi eu dwylo cyn prydau bwyd ac ar ôl defnyddio'r ystafell ymolchi. Mae system gadarn iawn ar waith i reoli bwyd ac alergeddau bwyd o fewn y feithrinfa. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gydag adran Iechyd yr Amgylchedd fel busnes bwyd ac mae wedi ennill gradd pump ar gyfer hylendid bwyd. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw gan ddarparu bwydlen gytbwys ar gyfer y plant, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Gofynnir am farn y plant ar y ddarpariaeth o fwyd ac mae'r rhain yn dylanwadu ar beth a gynhwysir ar y bwydlenni. Mae'r gwasanaeth wedi ennill y Wobr Byrbrydau Iach Safon Aur ac mae'n gweithio drwy'r cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy. Mae hefyd yn cymryd rhan mewn Cynllun Gwên sydd yn hyrwyddo hylendid y geg. Mae'r feithrinfa yn gweithredu amser 'byrbryd agored' yn ystod y bore a'r prynhawn sy'n galluogi'r plant i ddewis pryd y maent eisiau cael seibiant o'u chwarae ac eistedd gydag aelod o staff ar gyfer byrbryd.

Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o'r polisïau a'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn gosod terfynau realistig, maent yn esiamplau ymddwyn da, ac maent yn defnyddio dull cyson o reoli ymddygiad, gan ystyried oedran a dealltwriaeth y plant.

Gwnaethom arsylwi bod yr holl staff yn gadarnhaol iawn a chynnes wrth lywio ymddygiad. Roeddent yn canmol y plant pan oeddent yn ymddwyn yn dda, ac felly'n atgyfnerthu ymddygiad da. Roedd y plant yn gyfarwydd â threfn feunyddiol y feithrinfa ac roedd cael rhai pethau disgwyliedig yn helpu iddynt reoli ymddygiad. Gwelsom fod y staff yn barchus iawn tuag at y plant ac roeddent yn rhoi digon o rybudd iddynt pan oedd gweithgareddau neu dasgau ar fin newid ac roedd hyn hefyd yn helpu i wneud amser y plant yn y feithrinfa yn fwy cyfarwydd ac yn llai ansefydlog iddynt. Ni wnaeth materion arwyddocaol o ymddygiad digroeso ddigwydd yn ystod yr arolygiad. Roedd y staff yn rheoli materion ymddygiadol, megis cipio, wrth atgoffa'n dawel ar lafar ac roedd hyn yn ddigonol. Roedd gan yr holl staff ymagwedd dawel a hamddenol wrth ryngweithio â'r plant ac roedd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ffordd yr oeddent yn ymateb.

Mae'r staff yn gallu rheoli rhyngweithiadau'n dda ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau'r plant yn y gwasanaeth.

**2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?**

Mae'r staff yn darparu amgylchedd meithringar a gofalgar lle mae datblygiad y plant yn cael ei hyrwyddo'n dda. Gwelsom fod y plant yn gyfforddus iawn wrth ryngweithio â'r staff tra'r oeddent yn chwarae gyda'i gilydd a'u bod yn ymateb iddynt â hoffter. Roedd y staff yn siarad â'r plant mewn ffordd gyson, dawel a chalonogol, ac roedd hyn wedi helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn aros yn amgylchedd chwarae tawel a dymunol. Gwnaethom arsylwi ar y staff yn bod yn ystyriol o safbwyntiau'r plant ac yn ymwybodol er mwyn rhoi amser i'r plant ieuanc gael cyfathrebu eu dymuniadau. Gwnaethom eu gweld yn aml yn gwrando'n ofalus i'r hyn oedd gan y plant i'w ddweud, ac roedd hyn yn helpu'r plant deimlo fel eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Fel rhan o hyn, mae teimladau'r plant yn cael eu parchu yn y gwasanaeth.

Mae gan yr holl staff yn y gwasanaeth ddealltwriaeth dda o blant unigol a'u hanghenion a'u galluoedd. Mae system gweithiwr allweddol ar waith er mwyn cynorthwyo perthnasau rhwng y staff, y plant a'r teuluoedd. Dywedodd y person â gofal wrthym, oherwydd bod tua chwarter y grŵp staff yn siaradwyr Cymraeg hyderus, maent hefyd yn gallu cynnig system gweithiwr gofal drwy gyfrwng y Gymraeg, a gwelsom Gymraeg cadarn yn cael ei chynnwys ar draws y feithrinfa.

Mae'r staff yn cyflwyno ethos y Cyfnod Sylfaen yn y gwasanaeth hwn. Mae staff ar draws y gwasanaeth yn cynllunio gweithgareddau sy'n seiliedig ar ddiddordebau'r plant a sut oedd y plant yn ymgysylltu â'r gweithgareddau oedd wedi bod ar gael. Mae darpariaeth y gweithgareddau felly yn ymatebol iawn i ddiddordebau a galluoedd y

plant sy'n datblygu. Mae hefyd wedi’i drefnu fel 'darpariaeth barhaus', gan adael i'r plant ddewis rhyngweithio'n rhydd gyda'r gweithgareddau sydd ar gael. Mae'r staff yn ymwybodol o egwyddorion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac roeddent yn gallu siarad yn wybodus â ni am y sgiliau gwahanol yr oeddent yn gobeithio eu datblygu yn y plant drwy'r gweithgareddau amrywiol a ddarparwyd ganddynt. Roedd yn glir o'n harsylwadau eu bod yn ystyried diddordebau a galluoedd y plant er mwyn cynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu, gan fod y plant yn ymateb yn dda i'r gweithgareddau a ddarperir ac roedd ganddynt ddiddordeb felly'r oeddent wedi ymgysylltu.

Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad a llesiant y plant yn dda iawn drwy'r chwarae a'r gofal a ddarperir.

# 3. Yr Amgylchedd

## Crynodeb

Mae'r plant yn elwa ar amgylchedd sydd o safon uchel iawn, yn lân ac yn groesawgar a lle mae risg yn cael ei rheoli'n dda. Mae'r ardaloedd chwarae dan do wedi'u datblygu'n dda er mwyn sicrhau eu bod o ddiddordeb ac yn ddeniadol i blant, ac yn rhoi'r rhyddid iddynt i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae gan y plant fynediad at erddi sydd wedi’u trefnu’n dda ac maent yn elwa ar amrediad gwych o adnoddau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

## Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r plant yn derbyn  gofal mewn amgylchedd sy'n lân a diogel. Gwelsom fod yr ardaloedd y mae gan blant fynediad atynt wedi'u cynnal a'u cadw a'u haddurno'n dda. Mae diogelwch y gwasanaeth yn dda, ac mae ganddo ddrysau allanol diogel sy'n cael eu rheoli gan y staff er mwyn rhwystro mynediad i'r adeilad. Mae'r darparwr yn sicrhau bod yr arferion glanhau yn y gwasanaeth yn adlewyrchu arfer hylendid da a rheoli heintiau effeithiol, gan gynnwys glanhau teganau ac adnoddau'n rheolaidd fel rhan o raglen barhaus. Gwnaethom adolygu cofnodion diogelwch a chanfuom fod yr Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus, y dystysgrif diogelwch trydanol cyfnodol a'r dystysgrif diogelwch nwy blynyddol ar gyfer y gwasanaeth yn gyfredol. Mae asesiad risg tân ar waith ac mae cofnodion yn dangos bod ymarferion tân wedi'u cynnal ar sail reolaidd. Dangosodd y person â gofal ddangos i ni ei bod yn sicrhau bod y staff yn ymateb yn ddynamig wrth ymarfer arferion gwacáu'r adeilad trwy greu ffug enghreifftiau o fynediadau sydd wedi'u rhwystro gan dân er mwyn eu herio i wacáu gan ddefnyddio llwybrau eraill. Mae'r staff hefyd yn ymarfer arferion gwacáu i'r gwrthwyneb gyda'r plant rhag ofn y byddai angen symud y plant o'r gerddi yn ôl i mewn i'r feithrinfa. Mae'r gwasanaeth wedi nodi a chymryd camau i fynd i'r afael â risgiau ar yr eiddo. Gwnaethom archwilio'r asesiadau risg sydd ar waith ar gyfer y gwasanaeth a chanfuom eu bod yn drylwyr a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Gwnaethom adnabod un risg nad oedd wedi'i hystyried gan y gwasanaeth: nid oedd y plant yn cael eu hatal rhag mynd at y llwyni rhosod yn yr ardd cyn-ysgol. Cadarnhaodd yr Unigolyn Cyfrifol y byddai hyn yn derbyn sylw ar unwaith. Gwnaethom hefyd nodi arogl llwydni ysgafn yn yr ystafell ar gyfer cotiau a gwnaethom argymell fod llif yr awyr drwy'r ystafell yn cael ei wella er mwyn mynd i'r afael â hyn.

Mae'r plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd glân a diogel sydd yn elwa o waith cynnal a chadw ac arferion hylendid da.

### 3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r plant yn elwa ar amgylchedd sy'n groesawgar a chyfeillgar, ac sy'n cefnogi ymdeimlad o berthyn yn y gwasanaeth. Canfuom fod yr amgylchedd dan do wedi ei addurno'n dda, yn gynnes ac yn groesawgar. Mae rhan helaeth o'r addurniadau yn waith creadigol y plant eu hunain, yn ogystal â'r lluniau addurnedig a'r arddangosfeydd. Mae'r rhan fwyaf o'r adnoddau yn cael eu storio ar lefelau isel mewn cynwysyddion sydd o faint cyfleus i'r plant a golygai hyn eu bod yn gallu cael mynediad at y rhan fwyaf o'r adnoddau yn y gwasanaeth yn annibynnol, sy'n cynorthwyo eu dewis rhydd. Gwelsom blant yn dod allan ag adnoddau o'u dewis yn hyderus o'r lleoedd yr oeddent wedi'u storio yn ystod yr arolygiad. Mae byrddau a chadeiriau o faint sy'n addas ar gyfer plant ar gael er mwyn i'r plant gael gwneud gweithgareddau. Mae gorsafoedd gweithgareddau wedi'u creu ym mhob lle chwarae er mwyn rhoi pwrpas a theimlad cyfarwydd i'r ardaloedd, megis bwrdd creu marciau lle mae'r adnoddau creu marciau o hyd ar gael, neu ardal baentio lle mae'r paent o hyd ar gael yn rhydd. Gwnaeth y staff y buom yn siarad â nhw ddweud wrthym fod y datblygiad hwn o'r lle wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i brofiadau'r plant, gan ryddhau mwy o le yn yr ystafelloedd chwarae a rhoi ymdeimlad cyfarwydd â phwrpas i'r ardaloedd.

Mae'r plant yn y gwasanaeth yn elwa ar dri lleoliad chwarae awyr agored sydd wedi'u datblygu a'u cyflenwi ag adnoddau da a oedd wedi'u gwella'n ddiweddar. Gwelsom blant ym mhob grŵp oedran yn gwneud defnydd da o'r gerddi drwy gydol ein hymweliad oherwydd bod ganddynt yr hawl i symud yn rhydd rhwng y safleoedd dan do a'r awyr agored am y rhan fwyaf o'r dydd. Roedd y gerddi wedi'u datblygu i ddarparu amrediad eang o weithgareddau sy'n addas ar gyfer oedran. Roedd ystafell ddosbarth awyr agored ddymunol ar gael yn yr ardd cyn-ysgol, yn ogystal â chegin fwd ddatblygedig iawn, offer dringo, a phibellau ar gyfer gweithgareddau arllwys a llenwi. Roedd ardal wedi'i gorchuddio wedi cael ei osod yn ddiweddar yng ngardd y plant bach ac roeddent hefyd yn elwa ar ardal eang o laswellt ac offer dringo.

Mae'r plant yn elwa ar amgylchedd sydd wedi ei datblygu'n dda â digonedd o le i chwarae a dysgu.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae'r plant yn elwa ar ddewis da iawn o deganau ac offer sy'n briodol ac yn addas i'w hanghenion, ac sydd yn eu helpu i ymgysylltu mewn chwarae ystyrlon. Gwelsom fod yr adnoddau yn y gwasanaeth yn cwmpasu amrediad eang o gyfleoedd chwarae, ac roedd y plant yn gallu cael mynediad rhydd i nifer fawr o'r adnoddau sydd wedi'u storio. Roedd llyfrau ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg. Roedd yr adnoddau yn cynnwys dewis da iawn o ddeunyddiau naturiol, cynaliadwy ac eitemau bywyd go

iawn, ac mewn nifer o ardaloedd, roedd dewis o adnoddau yn cael eu harddangos mewn modd dymunol i helpu i ddangos i'r plant beth oedd ar gael ac i'w gwneud yn ddeniadol. Roedd yr adnoddau chwarae rôl yn cynnwys llawer o wrthrychau bywyd go iawn megis deunydd swyddfa, offer pacio, a phlanhigion y tŷ. Roedd adnoddau byd bach ac adeiladu yn cael eu cyflwyno mewn modd hwylus a deniadol i annog diddordeb y plant. Mae gan yr amgylchedd awyr agored adnoddau da ac yn ystod yr arolygiad gwelsom fod y plant yn llwyr fwynhau'r amser yr oeddent yn ei dreulio yn yr awyr agored. Roedd y plant yn gallu chwarae gyda theganau y gellir eistedd arnynt, gyda chwarae anniben a theganau byd bach. Roeddent hefyd yn caru dŵr yn benodol am ei fod yn ddiwrnod cynnes iawn.

Mae'r plant yn elwa ar amrediad gwych o adnoddau ac offer sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol ac sy'n helpu i sicrhau eu bod yn cael amser hwylus a'u bod yn ymgysylltu yn y gwasanaeth.

# 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

## Crynodeb

Mae'r rhieni a'r plant yn derbyn gwasanaeth cyson, dibynadwy o ansawdd uchel sy'n cael ei weithredu'n dda, gyda sylw dyledus yn cael ei roi i'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Mae'r darparwr yn ymroddgar i wella canlyniadau ar gyfer y plant, trwy fyfyrio ar arfer ac mae'n rhagweithiol ynghylch cynllunio ar gyfer gwelliannau i'r gwasanaeth ac ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus y staff. Mae'r gwasanaeth hefyd yn rhagweithiol ynglŷn ag ymgysylltu â theuluoedd ac am rannu gwybodaeth gyda nhw am eu plant.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r plant a'r rhieni yn elwa ar wasanaeth sydd wedi'i weithredu a'i gynllunio'n dda iawn. Mae gan y gwasanaeth Datganiad o Ddiben ar waith sy'n cael ei rannu gyda'r rhieni yn ôl yr unigolyn cyfrifol. Mae'r Datganiad o Ddiben yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau, mae'n eglur, ac fe'i hadolygir yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i roi adlewyrchiad cywir o'r gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom archwilio polisïau'r gwasanaeth a chanfuom eu bod yn briodol ac yn drylwyr, ac roedd cofnodion hefyd yn dangos eu bod yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n barhaus yn ôl yr angen. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn briodol. Mae'r staff hefyd yn cofnodi anafiadau'r plant sydd eisoes yn bodoli pan maent yn mynychu'r gwasanaeth. Roedd cofnodion meddyginiaeth yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol ac roedd y rhieni yn llofnodi i roi caniatâd i roi'r feddyginiaeth yn ogystal â llofnodi wedi hynny er mwyn cydnabod y cofnod. Roedd cofrestri presenoldeb y plant yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol ac maent yn cael eu cwblhau mewn modd amserol. Mae cofnodion y plant hefyd yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol i sicrhau bod y staff yn gallu diwallu anghenion y plant.

Gall rieni fod yn hyderus bod y ddarpariaeth yn cael ei gweithredu'n dda gydag arweinyddiaeth a rheolaeth dda, a rhoddir gofal a sylw i'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r plant a'r rhieni yn elwa ar wasanaeth sydd wedi ymrwymo i gynnal safonau uchel a gwella canlyniadau ar gyfer y plant, ac maent yn mynd ati i ddiffinio a mesur ansawdd y gwasanaeth. Mae system gadarn ar waith i sicrhau bod hunanwerthusiad ffurfiol o'r gwasanaeth yn cael ei wneud ar sail flynyddol o leiaf. Dangosodd yr adroddiad Ansawdd Gofal bod y gwasanaeth yn ymgynghori â rhieni, staff, plant ac

asiantaethau allanol perthnasol er mwyn adolygu ansawdd y gwasanaeth, ac mae'n defnyddio'r wybodaeth hon i osod cynllun gweithredu a fwriedir i wella'r gwasanaeth dros y 12 mis canlynol. Mae hefyd systemau ar waith i annog rheolwyr i fyfyrio ynghylch eu harfer a darpariaeth y gwasanaeth, yn ogystal â helpu staff i fod yn ymarferwyr myfyriol. Mae'r Person â Gofal yn cynnal archwiliad o’r gwasanaeth a'r offer ddwy waith y flwyddyn, ac mae'r holl elfennau hyn yn bwydo i mewn i waith cynllunio trylwyr ar gyfer gwelliannau i'r gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn tynnu ar dystiolaeth uniongyrchol a safbwyntiau'r staff, rhieni, plant ac asiantaethau allanol er mwyn gwerthuso'r gwasanaeth, ac mae'n ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf.

## 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwasanaeth yn effeithiol wrth reoli staff, amser a blaenoriaethu gweithgareddau mewn modd cyfrifol er mwyn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu mewn modd amserol. Gwnaethom arsylwi bod staff yn drefnus iawn a gwelsom fod hyn yn caniatáu iddynt aros yn dawel wrth ddarparu gofal. Roedd enghraifft o hyn yn cynnwys cael unigolyn dynodedig bob dydd i baratoi byrbrydau ac i weini'r byrbrydau yn ystod amser byrbryd agored. Mae'r amgylchedd tawel ac ymlaciedig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar hwyliau'r plant a'u rhyngweithiadau.

Mae gweithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau bod y bobl sy'n gofalu am y plant yn addas ac yn gymwys i wneud hynny. Mae system ar waith i sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a hyfforddiant gofynnol yn cael eu hadnewyddu yn ôl yr angen. Gwnaethom archwilio sampl o ffeiliau'r staff a chanfuom eu bod yn cynnwys yr holl wiriadau cyn-gyflogaeth angenrheidiol. Roedd y cofnodion yn dangos bod staff yn cael eu hymsefydlu mewn modd sydd wedi'i gynllunio, bod pob aelod o staff yn cael eu goruchwylio’n fisol a bod gwerthusiadau yn cael eu cynnal yn flynyddol. Mae'r gwasanaeth wedi dangos ymrwymiad i hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus y staff trwy eu hannog i ymgymryd â chyrsiau hyfforddiant er mwyn gwella eu dealltwriaeth o ofal plant a materion cysylltiedig ymhellach.

Mae'r gwasanaeth wedi'i drefnu'n dda ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau'r plant.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae disgwyliadau rhieni a phlant ynglŷn â'r gwasanaeth yn cyfateb i'w profiadau. Nodir anghenion a hoffterau'r plant, ac mae rhieni'n gwybod sut y bydd y rhain yn cael eu diwallu. Mae taflen cofnodi plentyn yn cael ei chwblhau ar gyfer pob plentyn gan ei

riant fel bod gan y gwasanaeth yr holl wybodaeth angenrheidiol i ddarparu gofal i'r plant ac i ddiwallu eu hanghenion, megis hoffterau a chasbethau, arferion a datblygiad y plant. Mae polisïau priodol ar waith sy'n amlinellu sut mae'r gwasanaeth yn cael ei weithredu ac mae copïau o'r holl bolisïau ar gael i rieni. Mae'r rhieni yn cael eu cynnwys a'u hysbysu am weithgareddau eu plant. Mae staff ar gael i siarad â'r rhieni ar ddechrau a diwedd bob dydd i'w hysbysu ynglŷn â sut mae eu plentyn wedi bod. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi buddsoddi mewn system electronig ddiogel y mae staff yn gallu ei defnyddio i hysbysu rhieni yn ystod y dydd (os maent wedi rhoi eu caniatâd) ynglŷn â sut mae eu plentyn, faint y mae wedi'i fwyta, pryd y mae wedi cysgu, ac ati, ac i rannu ffotograffau o weithgareddau y mae wedi bod yn eu gwneud. Roedd yr holl rieni a wnaeth ymateb i holiaduron AGC yn cadarnhau eu bod yn fodlon â'r broses gyfathrebu sydd ar waith rhwng y gwasanaeth â nhw. Mae'r gwasanaeth yn cynnal noson agored unwaith y flwyddyn er mwyn annog rhieni i fod yn rhan o brofiad eu plant yn y gwasanaeth. Mae dull cydgysylltiedig hefyd yn bodoli ar gyfer gweithio gydag asiantaethau allanol sydd efallai yn ymwneud â phlant sy'n mynychu'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y plant a'u teuluoedd yn derbyn y cymorth angenrheidiol.

Mae anghenion y plant yn cael eu nodi er mwyn sicrhau y gellir darparu ansawdd gofal da iawn, ac mae'r rhieni yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud dewis gwybodus ynglŷn â defnyddio'r gwasanaeth.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- Dylid atal mynediad y plant at y llwyni rhosod yn yr ardd cyn-ysgol; a
- mae angen gwella'r llif awyr yn yr ystafell ar gyfer cotiau i helpu lleddfu arogl llwydni ysgafn yn yr ystafell.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o’n hamserlen arferol o arolygiadau oedd hwn.

- Gwnaeth dau arolygydd ymweliad dirybudd â'r gwasanaeth. Gwnaethom ymweld â'r feithrinfa am un diwrnod er mwyn arsylwi ar y plant a'r gofal yr oeddent yn ei dderbyn. Cynhaliwyd arsylwadau ym mhob ystafell a oedd yn cael eu defnyddio yn y feithrinfa, yn ogystal â thu allan. Defnyddiwyd ein dull SOFI 2 i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a’r gofal sy’n cael ei ddarparu gan y staff;
- gwnaethom adolygu gwybodaeth a gedwir gan AGC;
- gwnaethom gynnal arolygiad gweledol o'r safle;
- gwnaethom siarad â nifer o blant drwy gydol y dydd. Gwnaethom hefyd siarad â'r rhan fwyaf o aelodau'r staff oedd yn bresennol. Roedd y staff a'r rhieni wedi darparu adborth ysgrifenedig i AGC trwy gwblhau a dychwelyd holiaduron;
- gwnaethom edrych ar amrediad eang o gofnodion. Roedd y rhain yn cynnwys y Datganiad o Ddiben, ffeiliau'r staff, cofnodion iechyd a diogelwch, ffeiliau'r plant, cynllunio gweithgareddau a chofnodion datblygiad.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal dydd plant**<br>**Gofal dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Susan Shepherd-Evans** |
| **Person â gofal** | **Marie Anslow** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **161** |
| **Ystod oedran y plant** | **0 i 12 blwydd oed** |
| **Oriau agor** | **7.30am i 6pm, dydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy iaith** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **04 Awst 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **21 Mehefin 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu cynnig gweithredol y Gymraeg ac mae'n cynnig gwasanaeth dwyieithog. Rydym yn argymell bod darparwr y gwasanaeth yn ystyried *'Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol'* Llywodraeth Cymru.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |